CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed TACHWEDD 2018

YN Y GANOLFAN BODFFORDD

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J E Lewis, E D Owen, R M Roberts, E W Roberts, D T Roberts, E Williams Cyng Sirol D Rees, B Parry ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng J Evans. Cyng Sirol Mrs N Roberts.

Cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon yn ymwneud ac Ysgol Bodffordd.
Mrs Anwen Morgan a Mr Dylan Edwards.
Aelodau o`r Gymuned.
Mr Victor Hughes, Mr Dic Pritchard, Mr Rees Roberts, Mr T M Williams, Mr Arwel Humphreys, Mrs Rhian Owen.

Agorwyd y drafodaeth gyda Cyng H G Owen yn y gadair.
Cael Cynllun Busnes. Amcan yw`r pris gan Mr Dylan Edwards> hollt yn y ffigyrau.
Mr Victor Hughes. (Cyfarfod ar y diwrnod gan Mrs Kirsty Williams) hefo cau ysgolion.
Beth ydyw graddfa amser? dim yn gwybod faint o amser.
Cael canolfan arall i`r ardal. Gytundeb y Grant (Canolfan) Amodau yn parhaol.
Pobl y Pentref Bodffordd yn dymuno y Ganolfan yn ol dim y Cyngor Sir. Anfodlon i ddod yn ol i ail dalu unwaith yn rhagor (Wedi gweithio yn galed yn y lle cyntaf)
Mae cyfle i`r Gymuned dderbyn y cyfle, prisiau rhesymol.
Trosglwyddo Asedau i`r Ganolfan (Ail edrych ar y Pris). Trosglwyddo am bris farchnad (Ysgol)
Hanner grant mae y Cyngor Sir yn ei gael.
Mewn egwyddor dylai y pris gael ei ostwng i`r ardal. Mae amcangyfrif am drin yn dod i £200.000. Dwy flynedd i assesu`r pris.
Dywedodd y Cyng Sir B Parry fod y prisiau yn o agos.
Dywedodd y Cyng Sir D Rees. Methu newid rhaid symud ymlaen trio safio y Ganolfan.

Beth sydd yn digwydd pe bae y Gymuned ddim yn symud ymlaen (2 flynedd) Y Cyngor Sir yn dod hefo`r goriad a cau yr adeilad.
Cynghorydd Sirol yn sefyll drosom! Nid oes lle fel hyn ar yr Ynys.
Cyngor Sir ddim yn helpu! Cwbl mae nhw eisiau ydyw cau a cael yr arian.
Y Cyngor Sir yn dweud fydd pethau yn newid dros y blynyddoedd i ddod. Parod i helpu unrhyw ffordd y medran. Ffigurau ddim yn concrit - les - efallai.
Dywedodd Cyng E D Owen cau gwnaeth Llandrygarn, ers hyn mae`r gymuned wedi mynd.
Cadw ddiwylliant yn fyw. Mae yn anferth o waith. Cadw y Cymunedau yn fyw yn Gymraeg.
Gweithio yn galed i fynd ac angen £195.000 i symud ymlaen.
Gofynwyd am y brotest yn Caerdydd??? Beth ddigwyddodd i Ysgol Llandrygarn. Dywedwyd gan Mr Dylan Edwards fod hon yn achos arbennig.!!!!!!!!!!
Cam Gyntaf. Cais.
Y Gymuned yn symud ymlaen. Cynlluniau - Cael Arian.
(A fydd y Cyngor Sir eisiau sleisen o`r arian os fydd adeiladu.)
Cael Grwp - Grwpiau y ffordd ymlaen.
Cael amser i feddwl cyn symud.
Ymlaen gwyntyllu - Ardal wedi dychryn.
Ail feddwl am y prisiau y Ganolfan yn rhatach. (Dim yn bosib)

Diweddu.
Derbyn y cam cyntaf.
Gwneud y Cynllun Busnes.
A ydyw yn dderbyniol.
Un ffordd neu`r llall.
Pwyllgor Cyhoeddus i`r Ardal. (Dewis Cadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd)? Rhaglen Mis Rhagfyr.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng R M Roberts. (Ffermwyr Ifanc) Rhif 13.

CAEL COFNODION 16eg HYDREF 2018 YN GYWIR Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng R R Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cae Chwarae. Postiau wedi ei gosod. Gofynwyd am amcangyfrif i Mr J D Rowlands i wneud y gwaith. Galwodd Mr Rowlands gyda`r Cadeirydd hefo`r amcangyfrif a`r infois a dweud fod y gwaith wedi ei gwblhau. Gofynwyd iddo pwy oedd wedi rhoi caniatad iddo wneud y gwaith ond ni chafwyd ymateb.
Pwy sydd wedi rhoi caniatad?. Y Cyngor yn siomedig fod hyn wedi digwydd. Pasiwyd i dalu y ddyled £650.00. Anfon llythyr caled iddo, ac yn gofyn pwy oedd y person a ofynnodd iddo wneud y gwaith. Ni ellir adael hyn ddigwydd eto. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng D T Roberts. (Unfrydol)

Cynllun Treflys, Tynlon. Dywedodd Cyng Sirol B Parry fod pobpeth yn iawn. Dywedodd y Cyngor fod y cynllun yma yn wahanol. Cyng Parry i edrych i fewn eto.

Sedd Wag. (Heneglwys) Hysbysiad wedi ei arddangos ym Modffordd.

Anfon unwaith eto i Adran Dosbarthu Llythyrau ynghylch a`r post yn hwyr yn cyrraeth Pentref Llynfaes bob dydd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. 14C164G. Cais amlinellol i godi adeilad ar dir ger :-
   Llwyn Celyn, Trefor.
   Cysylltu a`r Adran Priffyrdd ynghylch a rhoi sylw i`r tro.
   Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R M Roberts.

PENDERFYNIADAU:
2. 14C42N. Gwaith Dwr, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

3. 14C254A. Cefn Trefor, Trefor. Wedi ei dynnu`n ol. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
4. Dim.

GOHEBIAETH (ARALL)
5. Cyng B Parry. Ymateb ar ol gair gyda Mr Dylan Edwards yn ymwneud a Ysgol Bodffordd. Wedi ei drafod yn y cyfarfod uchod.

6. Dan Do Mon. Cylchlythyr i Fudidau Gwirfoddol Ynys Mon. Derbyn dim sylw.

7. Yr Arolygiaeth Gynllunio.
   Cais gan Horizon am orchymyn rhoi caniatad datblygu ar gyfer Gorsaf Bwer Niwclear Wylfa Newydd. Amserlen yr Archwiliad, weithdrefn a hysbysu gwrandawiadau. Derbyn.

8. Sesiynau galw i mewn llwyddianus hyd yma i gynorthwyo bobl i gofrestru gyda`r arolygaeth gynllunio ac i ddweud wrthynt pam nad ydym eisiau ail res o beilonau. Derbyn

9. LCAS Risg Pwnc Diweddaru (Zurich)
   Ateblorwydd Coed / Diogelwch Mynwentydd a Chofiadwy. Gwybodeth.
   Derbyn mae yn bwysig i`w gadw mewn golwg.

10. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

11. Valley Wings. Cylchgrawn Lly Awyr Valley. Derbyn.

12. Ysiwrant Zurich. Data Diogelwch. Rhywun wedi dyfodi 3 o`i E Bost heb ganiatad. Nid oes angen gwneud dim ond bod yn wiliadwrys hefo ymosodiad PHISHING. Derbyn.

RHODDION.
13. Cadeirydd CFfi Mon. (Ar ran Tim Trefnu Eisteddfod Mon) Gadael hyd Mawrth 2019.

PLWYFOL.
14. Dwr yn rhedeg i`r lon o`r Tanc Carffosiaeth yn Graigfryn, Glanrafon. Cysylltu a`r Cyngor Sir.

15. Oherwydd fod cymaint o bethau yn y Ganolfan, Bodffordd ni fydd bosib cael Pwyllgor Cyhoeddus ym Mis Rhagfyr. Gadael hyd Ionawr 2019 (Cyng E W Roberts)

16. Drych wrth yr Hen Bost Tynlon angen sylw.

17. Sbring ar y giat fochyn ger Castell, Llandrygarn wedi cyrydu. (Silver Striders)

TALIADAU:
19. Clerc £220.83. J D Rowlands (Cae Chwarae) £650.00.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts.